**P-05-1049 Newid i wyliau ysgol yr haf!**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rebecca Mercer, ar ôl casglu cyfanswm o 84 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Hoffwn gyflwyno cynnig i ostwng y gwyliau 6 wythnos i 4 wythnos, ac ychwanegu'r 2 wythnos at wyliau hanner tymor.
Rwy'n credu efallai mai mis Hydref a mis Mai fyddai'n cynnig y budd mwyaf.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae gwyliau'r haf wedi bod ers amser hir iawn ar eu ffurf bresennol. Rwy'n credu bod bywyd wedi newid a, phe gallem newid y patrwm hwn nawr, gallai roi cydbwysedd da i ni rhwng gwaith a bywyd. Nid dim ond i staff ysgol - gall rhieni fanteisio ar wyliau rhatach hefyd. Gyda 2 hanner tymor sy'n para am 2 wythnos, bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd a phris gostyngedig ar gyfer y mwyafrif o gyrchfannau. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i rieni gynnal gofal plant fforddiadwy am 4 wythnos, yn hytrach na 6 wythnos. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bawb rannu hyn drwy'r flwyddyn. Y gobaith yw y byddai hynny'n arwain at lai o straen i bawb a diwedd i ofni gwyliau'r haf.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Casnewydd
- Dwyrain De Cymru